

# Brîff Brexit



Plaid  
Cymru | Party of  
Wales



Dyma'r ail rifyn o'r Brîff Brexit, rydym yn gobeithio y gwnewch chi fwynau. Mae llawer mwy o wybodaeth am ein gwaith ar gael ar [adran Brexit ein gwefan](#).

Mae tri rhan i'r Brîff hwn:

- 1) Crynhoi o'r Cynulliad (Senedd Cymru)
- 2) O lygad y Ffynnon (Senedd Ewrop)
- 3) Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd (San Steffan)

Mae croeso i chi yrru adborth i ni drwy e-bostio [post@plaid.cymru](mailto:post@plaid.cymru).

## Crynhoi o'r Cynulliad

Gan ein llefarydd Brexit yn y Senedd Steffan Lewis AC a'r Tîm Cynulliad



## Cynhadledd Plaid Cymru

Brexit wnaeth ddominyddu Cynhadledd Flynyddol Plaid Cymru yn Llangollen. [Yn ei haraith fe ddywedodd Leanne Wood fod rhaid i Gymru 'ailadeiladu ac adnewyddu'](#) ar ôl Brexit a chadarnhau ymrwymiad Plaid Cymru i frwydro dros barhau â'n haelodaeth o'r Farchnad Sengl, er budd economi Cymru.

[Fe wnaeth hi hefyd godi ei llais yn erbyn "gwleidyddiaeth ymrannol, hyll, Brydeinig"](#) sydd wedi codi ei ben yn sgil pleidlais Brexit, gan nodi fod cynydd wedi bod mewn troseddau casineb a bod elfennau o'r wasg wedi mynd ati i normaleiddio dweud pethau gwrth-fewnfudwyr a gwrth-geiswyr lloches yn gyhoeddus.

Fe wnaeth Steffan Lewis AC amlygu'r effaith mae Brexit wedi ei gael ar wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaeth iechyd Cymru, gan ddisgrifio'r 'coctêl gwenwynig' sydd yn bygwth eu dyfodol. Fe wnaeth Simon Thomas AC gynnal trafodaeth banel ar effaith Brexit ar Gymru wledig. Gallwch wylïo darlledïad o'r Gynhadledd [yma](#).

### **Perthynas newydd aeddfed?**

Yr wythnos ddiwethaf fe wnaeth y Cydbwyllgor Gweinidogol gyfarfod, gan ddod â chynrychiolwyr o'r llywodraethau datganoledig a Phrif Weinidog Prydain ynghyd am y tro cyntaf ers Rhagfyr 2014. [Fe wnaeth Plaid Cymru rybuddio](#) cyn y cyfarfod cyntaf bod risg i'r ymarferiad droi yn "siop siarad arwynebol yn hytrach na ffordd er mwyn sicrhau'r fargen orau posib i Gymru".

Dywedodd Theresa May ei bod hi'n gobeithio mai dyma ddechrau "[perthynas newydd aeddfed](#)" rhwng gwledydd y Deyrnas Gyfunol (DG). Ond, yn sgil cwestiynau gan Steffan Lewis yn y Cynullïad, fe wnaeth y Prif Weinidog gyfaddef nad oedd llywodraeth y DG wedi rhoi gwybod iddo am y fargen gyda Nissan a gafodd ei chyhoeddi ddim ond rai diwrnodiau'n ddiweddarach. Mae'r Ceidwadwyr i weld yn ceisio gweithredu Brexit mewn ffordd dameidiog, sector fesul sector, yn hytrach na chenedl fesul cenedl, tra mae llywodraeth Cymru yn cael ei [hanwybyddu'n llwyr](#).

### **Codi Cwestiynau gyda Carwyn**

Yr wythnos nesaf bydd Prif Weinidog Cymru yn ymddangos gerbron Pwyllgor Materion Allanol y Cynullïad, sef yr hwn mae pobl yn cyfeirio ato fel y 'Pwyllgor Brexit', er mwyn wynebu cwestiynau ynglŷn â be fydd ymateb llywodraeth Cymru i Brexit. Bydd cynrychiolydd Plaid Cymru ar y pwyllgor, Steffan Lewis, yna yn ei ddwyn i gyfrif ynghylch y ffaith bod ei llywodraeth yn newid eu hagwedd gyda'r gwynt tuag at y materion mawr sy'n wynebu'n gwlad.

### **O lygad y Ffynnon**

gan Jill Evans ASE & a Thîm Plaid Cymru Ewrop



- Cafodd cyfarfod cyntaf y grŵp gweithredol Gwyrddion / EFA ar Brexit ei gynnal ar Hydref 25 yn Strasbourg. Cytunodd y grŵp y byddai'r ymagwedd yn un bositif: dim dial, ond dim ffafrau arbennig ar gyfer y DG chwaith.
- Mae Jill wedi bod yn cydlynu gyda sefydliadau dros Gymru i drafod ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd a'r fargen orau i Gymru mewn unrhyw berthynas yn y dyfodol. Mae hi wedi cynnal cyfarfodydd gyda Chyfeillion y Ddaear a chynrychiolwyr o Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.
- Nid oes unrhyw gyfarfodydd swyddogol wedi digwydd yn y Senedd eto. Yn ôl adroddiadau mae Michel Barnier, prif negodwyr y Comisiwn Ewropeaidd, wedi mabwysiadu'r canllawiau canlynol: o dan dermau'r setliad ymadael ni all y DG (na unrhyw wlad arall) fod mewn sefyllfa well na gwladwriaethau eraill sydd yn aelodau, fod mewn sefyllfa well na trydedd wlad fel Norwy a chwaith fod mewn sefyllfa i flocio deddfwriaethau'r UE.
- Bydd pob un o bwyllgorau Senedd Ewrop yn ysgrifennu adroddiad ar ymadawiad y DG o'r UE.

## Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd

gan Lefarydd Brexit Plaid Cymru yn San Steffan Jonathan Edwards AS a'r Tîm



Mae bellach dros bedwar mis ers y refferendwm a dydyn ni dal ddim callach ynglŷn â be fydd safle negodi Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol (DG). Fe ddaeth Prif Weinidog yr Alban allan o'r cyfarfod cyntaf o Gydbwyllgor y Gweinidogion rhwng Theresa May a'r Llywodraethau datganoledig, gan ddweud: *"Dydw i ddim yn gwybod dim byd nawr am sut bydd llywodraeth y DG yn ymrafael â thrafodaethau a'r Undeb Ewropeaidd nad oeddwn yn ei wybod cyn mynd mewn i'r cyfarfod."* Ychwanegodd nad oedd hi'n credu *"fod strategaeth negodi yn bodoli ar hyn o bryd ar ran llywodraeth y DG"*.<sup>1</sup>

Yr hyn rydym yn ei wybod ydi fod y llywodraeth yn "dewis enillwyr" ar gyfer y broses o negodi – hynny yw, dewis sectorau penodol y byddan nhw yn ceisio eu gwarchod gan adael i eraill ddiodef.

<sup>1</sup> <https://www.theguardian.com/politics/2016/oct/24/nicola-sturgeon-says-brexit-meeting-was-deeply-frustrating>

Daeth Theresa May yn ôl o gyfarfod gyda Chyngor Ewrop er mwyn gwneud datganiad i Dŷ'r Cyffredin a oedd, fel arfer, yn llawn rhethreg wag disylwedd ([gallwch ddarllen y datganiad yn llawn fan hyn](#)). Ond wrth i Aelodau ei holi, fe wnaeth hi ddatgelu ychydig ynglŷn ag os byddan ni yn aros o fewn yr undeb dollau – mater o bwys tragwyddol i economi Cymru.

Gan ymateb i gwestiwn ar y pwnc, dywedodd y Prif Weinidog:

*“Y pwyt pwysig ynghylch yr undeb dollau yw nad yw’r ffordd rydych yn delio gyda hi ddim yn ddewis deuol. Mae gwahanol agweddau i’r undeb dollau, a dyna pam mae’n bwysig edrych ar y manylion a chael yr ateb cywir, yn hytrach na dim ond gwneud datganiadau.”*

Byddai gadael yr undeb dollau yn faich i gwmnïau gan y byddai’n golygu mwy o waith papur, oedi a gwirio ar y ffin a hefyd byddai’n golygu bod ffin rhwng gogledd a de Iwerddon. Ond mae’r Ysgrifennydd Masnach Rhyngwladol yn daer yn erbyn aelodaeth o’r undeb dollau oherwydd y byddai’n ei atal ef rhag taro bargaenion dwyochrog.

Roedd ateb y Prif Weinidog yn gatalyst ar gyfer y datgeliad fod y cynhyrchydd ceir, Nissan, wedi cael addewid o fargen gan lywodraeth y DG, sef na fyddai eu statws masnachu yn cael ei effeithio o ganlyniad i Brexit. Yn sgil hyn fe orfodwyd Greg Clark, yr Ysgrifennydd Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i ryddhau datganiad yn cadarnhau’r sefyllfa.

Mae awgrymiadau tebyg wedi cael eu gwneud yng nghyd-destun y Farchnad Sengl – rhywbeth y mae economi Cymru, sy’n gryf iawn o ran allforion, yn ddibynol arno. [Mae adroddiadau y bydd y Prif Weinidog yn ceisio tynnu’r DG allan o’r Farchnad Sengl, ond gan eithrio sector ariannol Llundain gan adael iddyn nhw gadw eu haelodaeth.](#)

Er bod y Torïaid yn parhau i ddweud wrthym fod Brexit yn golygu Brexit, mae’n ymddangos fel bod hynny yn golygu ‘Brexit meddal’ i rai a ‘Brexit caled’ i rai eraill.

Yn y cyfamser mae gwerth y bunt yn parhau i ostwng, er gwaetha nifer o ddigwyddiadau fyddai fel arfer yn cael eu hystyried i fod yn newyddion da. Ni wnaeth yr hwb a gafodd ei achosi gan y newyddion y byddai Llywodraethwr Banc Lloegr, Mark Carney, yn ymestyn ei swydd bara, ac ni chafodd cyhoeddiad yr wythnos ddiwethaf bod ffigyrau twf economaidd yn well na’r disgwyl lawer o effaith, na chwaith codi cynnyrch gilt. Yr esboniad anesmwyth, yn ôl buddsoddwyr, yw mai gwleidyddiaeth sydd bellach yn gyrru’r bunt yn hytrach na realiti economaidd, ers i’r Prif Weinidog gyhoeddi ei bwriad i fynd ar ôl ‘Brexit caled’ yng Nghynhadledd y Torïaid. Testun pryder. Bydd punt sydd yn perfformio yn wael yn gwasgu incwm cartrefi a chynyddu cost byw i bawb ledled y wladwriaeth Brydeinig.

## **Yr hyn rydym ni wedi bod yn ei wneud**

Mae’r Grŵp Seneddol wedi parhau i wneud yr achos dros barhau â’n haelodaeth o’r Farchnad Sengl a’r undeb dollau. Fel Arweinydd y grŵp Seneddol fe wnaeth Hywel Williams ddefnyddio ei araith yng Nghynhadledd Plaid Cymru i amlinellu’r sefyllfa mewn cryn fanylder, [gan gyhuddo San Steffan o fod yn ‘anwladgarol’](#) drwy danseilio swyddi, twf a rhagolygon bywyd pobl ifanc yn fwriadol drwy fynd ar ôl ‘Brexit caled’.

Mae Jonathan Edwards, ein llefarydd ar fasnach rhyngwladol, wedi bod yn cadw’r pwysau ar lywodraeth y DG a’r ‘wrthblaid swyddogol’ honedig i gydnabod pwysigrwydd aelodaeth o’r Farchnad Sengl a’r undeb dollau i’r economi Gymreig. Fe roddodd Jonathan araith yn Westminster Hall ar yr effaith bydd ymadawiad y DG o’r UE yn effeithio ar gyllid Cymru. [Gallwch ei wyllo yma.](#)

[Fe wnaeth Jonathan hefyd alw ar y Canghellor i ymrwymo i gadw Cymru yn y Farchnad Sengl a'r undeb dollau.](#)

Defnyddiodd Hywel Williams ei gwestiwn yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog er mwyn cyhuddo'r Prif Weinidog o 'ddewis enillwyr' gan roi 'Brexit meddal' i'w ffrindiau yn Ninas Llundain wrth roi 'Brexit caled' i bawb arall. [Dywedodd fod angen i Gymru gael bargaen debyg.](#)

Yn ystod y dyddiau diwethaf daeth cyhoeddiad fod Plaid Cymru wedi bod yn llwyddiannus yn ein hymdrech i sicrhau fod Cymru a'r Blaid yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Brexit dylanwadol yn Nhŷ'r Cyffredin. [Fel yr unig AS Cymreig Jonathan Edwards fydd eich cynrychiolydd ar y pwyllgor hwnnw.](#) Yn dilyn y cyhoeddiad hwn fe wnaeth Jonathan ymddangos ar raglen y Sunday Politics i drafod ei flaenoriaethau fel llais Cymru ar y pwyllgor. [Gallwch wyllo'r rhaglen yma.](#)

Dilynwch [@JonathanPlaid](#) a [@Plaid\\_Cymru](#) ar Twitter er mwyn cael yr holl newyddion diweddaraf am waith y Grŵp Seneddol ar Brexit.